



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LLENYDDIAETH GYMRAEG HEN
FANYLEB**

IONAWR 2017

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Llenyddiaeth Gymraeg
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
Ionawr 2017

Uned 1
Haen Uwch

5 ymgeisydd yn unig oedd wedi eu cofrestru ar gyfer yr arholiad ail sefyll hwn. Diolch am roi'r cyfle iddyn nhw wella ar radd Haf 2016.

Barddoniaeth:

Roedd cael dau gwestiwn oedd yn gofyn i'r ymgeiswyr drafod dwy gerdd yn y naill gwestiwn a'r llall wedi bod yn her i'r ymgeiswyr - roedd y rhan fwyaf wedi penderfynu ateb cwestiwn 2 a da yw nodi eu bod yn cytuno â'r gosodiad bod barddoniaeth yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd.

Cafwyd atebion eithaf da hefyd i'r cwestiwn olaf – gan gyfeirio at y cerddi 'Etifeddiaeth' a 'Cholli laith' gan amlaf.

Nofel:

Yn *Y Gwaed* oedd yr unig nofel a atebwyd ar y papur.

Llwyddodd y goreuon i drafod perthynas Mam a Mared yn effeithiol gyda'r ymgeiswyr gorau wedi cofio ambell ddyfyniad i gefnogi sylwadau ar berthynas galed Mam a Mared.

Cafwyd ymateb eithaf da hefyd i'r tensiwn yn yr olygfa a ddyfynnwyd – mae'r adrannau wedi hyfforddi ymgeiswyr erbyn hyn i ymdrin ag arddull y darn.

Cafwyd ymsonau eithaf effeithiol gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyfleu casineb llwyr Robin tuag at y Saeson - a doedd dim edifarhau am losgi'r capel ar ddiwedd yr ymsonau.

Haen Sylfaenol

Derbyniwyd gwaith gan 12 ymgeisydd. Cafwyd 6 ateb ar gwestiwn 1 a 6 ateb ar gwestiwn 2. Atebodd pawb ar y nofel *Llinyn Trôns*

Barddoniaeth:

Cwestiwn 1

- (a) Roedd ansicrwydd ynglyn â'r bardd.
- (b) Camddyfnnu'n digwydd e.e. *dawnsio'n llon, poteli plastig, poteli gwydr, pysgod yn dawnsio chwerthin*. Rhyw fras wybodaeth o'r cynnwys a gafwyd.
- (c) Cafwyd ychydig o drafodaeth ar werth y nodweddion arddull ac os oedd y dyfnnu'n anghywir yna collwyd y marciau.
- (ch) Gwelwyd ychydig o drafodaeth ar y thema. Ni welwyd dyfnnu'n aml.

Cwestiwn 2

- (a) Gwelwyd gwell gfael yma ar enwi cerddi ac awduron 'Glas', Bryan Martin Davies a 'Colli Iaith', Harri Webb.
- (b) Roedd trafod eithaf da ar y cynnwys ond roedd nifer yn rhy gyffredinol. Roedd rhai heb ddweud beth oedd yn poeni'r bardd.
- (c) Gwelwyd ansicrwydd yma a chafwyd anhawster wrth geisio cyfleu gwerth nodweddion yn eu cyd-destun e.e. "môr yn rowlio chwerthin" yn golygu bod y môr yn taro'r tywod. Un arall yn dweud, "mae'n dangos i ni fod hi'n ddiwrnod braf lawr yn y Mwmbwls".
- (ch) Ni wnaed y rhan hon gan rai. Roedd rhai wedi dewis 'Glas' ond heb wneud cerdd arall o'r thema. Ychydig drafod a gaed a llai byth o ddyfynnu.

Nofel

- (a) Roedd y mwyafrif yn gwybod pwy oedd Donna.
 - (b) Roedd y mwyafrif yn gwybod pam doedd Llion ddim yn hoffi Gags, ond roedd mwy nag un wedi nodi bwllo yn unig fel ateb.
 - (c) Yma, y broblem oedd methu cyfeirio at ddechrau'r nofel gan sôn am weithgareddau yn nes ymlaen yn y nofel.
 - (ch) Cafwyd ymateb digon derbyniol, yn cynnwys nodweddion cymeriad a thystiolaeth.
 - (d) (i) Atebion gweddol.
 - (ii) Atebion gweddol.
 - (iii) Prin oedd y cynigion yma.
- (dd) Roedd ffurf dyddiadur yn ansicr a nifer yn crwydro i bob man yn ddiangen.

Digon cyffredin oedd yr ymateb drwyddi draw.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk